

PRYNU EGNI SY'N FWY GWYRDD



ADEILADAU

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT



ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



ADEILADAU

Prynu egni sy'n fwy gwyrdd

WHY?

Mae'n dal i fod yn wir mai allyriadau carbon yw'r prif beth sy'n gyrru'r newid yn yr hinsawdd; yn y DU, daw allyriadau sylweddol o wresogi cartrefi a mannau cyhoeddus, fel eglwysi. Cafwyd buddsoddiad mawr mewn defnyddiau adnewyddadwy: rhwng 2010 a 2020, cynyddodd yr allbwn adnewyddadwy yn y DU ddeg gwaith.

Yn yr Undeb Ewropeaidd yn 2020, am y tro cyntaf erioed, roedd mwy o drydan yn dod o ddefnyddiau adnewyddadwy na thanwydd ffosil dros y flwyddyn. Yn yr un flwyddyn, yn y DU, aethom am fwy na 2 fis heb ddefnyddio unrhyw lo. Cafwyd y llwyddiannau hyn yn rhannol oherwydd y gostyngiadau mewn galw o ganlyniad i gyfnodau clo Covid-19, ond er hynny mae'n garreg filltir arwyddocaol ac yn arwydd calonogol o'r hyn sy'n bosibl.

Gall pob un ohonom gyfrannu at ostwng carbon drwy ddewis cyflenwad egni adnewyddadwy sydd yn awr yn opsiwn gweddol syml.

SUT?

Mae eglwysi wedi cyfrannu at y nifer o bobl sy'n defnyddio egni adnewyddadwy drwy'r fenter Big Church Switch a lansiwyd ym Mhasg 2016: <https://www.bigchurchswitch.org.uk/>

Os nad ydych wedi trosglwyddo eto, ymunwch ag eglwysi eraill a sicrhewch brisiau da i chi'ch hun am egni adnewyddadwy drwy 'Church Buying'; gall eglwysi Anglicanaidd ddefnyddio 'Parish Buying'.

<https://www.churchbuying.org.uk/switch-to-green>

<https://www.parishbuying.org.uk/index.php/categories/energy/energy-basket>

<https://energysavingtrust.org.uk/advice/switching-your-energy-supplier/>



ADEILADAU

Prynu egni sy'n fwy gwyrdd

BETH MAE 'GWYRDD' YN OLYGU?

Dydy pob gwyrdd ddim yr un fath! Mae meini prawf 'gwyrdd' Church Buying and Parish Buying i gyd wedi eu llunio i sicrhau bod pob nwy a thrydan yn dod o ffynhonnell werdd 100%, wedi eu cynhyrchu yn y DU 100% a dim egni o niwclear. Yn 1999, Good Energy oedd y cwmni cyntaf i gyflenwi 100% o'i egni yn adnewyddadwy, ac ers hynny mae llawer o gwmnïau yn y farchnad hon erbyn hyn: <https://www.goodenergy.co.uk/about-us/>

Darllenwch y blogiau isod i weld crynodeb am y gwahanol gyflenwyr. Wrth i chi ystyried pwy i'w ddewis, cymharwch gyfraddau costau'r cyflenwyr yn ogystal â'r hyn mae pob cwmni yn ei olygu wrth sôn am 'egni gwyrdd'. Mae'r gyfran o egni gwynt, solar, biomas a dŵr yn amrywio'n fawr: <https://www.renewableenergyhub.co.uk/blog/the-best-uk-green-energy-suppliers-in-2021-and-how-to-choose-one/>

<https://theswitch.co.uk/blog/energy/how-green-uk-renewable>

Mae nwy gwyrdd yn her arbennig. Mae'r canran o egni gwyrdd neu fionwy yn amrywio: mae llawer o gwmnïau'n cynnwys canran gweddol fach ac yn gwrthbwysu allyriadau carbon y nwy tanwydd ffosil drwy fuddsoddi mewn prosiectau gostwng carbon o amgylch y byd. Maen nhw'n cydnabod nad ydy hyn yn ddelfrydol ond, hyd yma, does dim digon o fionwy ar gael i ateb ein hanghenion nwy i gyd.

Yn 2021 roedd <https://www.greenenergyuk.com/> yn honni mai nhw oedd yr unig gwmni oedd yn gwerthu nwy 100% gwyrdd.

YMRWYMIADAU'R LLYWODRAETH

Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'r targed sero-net erbyn 2050 ac wedi dangos y camau y maent am eu cymryd er mwyn sicrhau hynny, yn arbennig y targedau ar gyfer gwynt alltraeth: <https://www.gov.uk/government/news/new-plans-to-make-uk-world-leader-in-green-energy>



ADEILADAU

Prynu egni sy'n fwy gwyrdd

Mae Ynys Manaw wedi mynd gam ymhellach ac wedi ymrwymo i 75% o egni adnewyddadwy erbyn 2035. Os ydych yn byw ar Ynys Manaw, gwelwch yma i gael rhagor o wybodaeth: <https://www.gov.im/news/2020/aug/19/opportunities-to-generate-renewable-energy-onshore/>

MICROGYNHYRCHU

Mae microgynhyrchu trydan yn broses lawer mwy cymhleth ac yn gofyn llawer mwy o gyfalaf na'r budd llawer cyflymach a gewch chi o sicrhau bod gennych gyflenwr trydan gwyrdd. Ond, efallai y bydd yn rhoi trydan adnewyddadwy rhatach i chi yn y tymor hir ac y bydd hefyd yn gostwng y pwysau ar y Grid Cenedlaethol, gan ganiatáu i chi wneud dewisiadau macro er mwyn dibynnu llai ar danwydd ffosil (gwelwch y papurau ar wahân am ddefnyddiau adnewyddadwy).

DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

I'r rheiny ohonoch chi sy'n hoffi data, mae'r gwefannau hyn yn dangos o le y daw ein trydan ar unrhyw un diwrnod (neu fis, neu flwyddyn!) penodol:

<https://electricinsights.co.uk/>

<https://electricityinfo.org/>

STRATEGIC DEVELOPMENT GOALS






ADEILADAU

Prynu egni sy'n fwy gwyrdd

UK electricity supply
mix 2020 (%)



Source: <https://www.ofgem.gov.uk/publications/infographic-promoting-sustainable-energy-future>